PWYLLGOR PENODI B

Dydd Mercher, 17 Chwefror 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
C.A. Campbell, J.M. Charles, J.A. Davies, S.L. Davies, E. Dole, L.D. Evans, W.T. Evans, R. James a/ac D. Jones (yn lle J.G. Prosser)

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
W. Walters, Prif Weithredwr
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
H. Daniels, Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
D. Richards, Rheolwr Prosiectau Adnoddau Dynol;
R. Young, Partner Busnes Arweiniol (AD)

Rhith-Gyfarfod - 2.00 - 5.00 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Prosser.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17EG IONAWR 2020

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2020 yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.

5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR Y 28AIN IONAWR 2020

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn**

yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 28 Ionawr 2021.

6. DERBYN DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR RHESTR FER AR GYFER SWYDD PENNAETH ADFYWIO AC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD.CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR RHESTR FER AR GYFER SWYDD PENNAETH Y GWASANAETHAU INTEGREDIG, AC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD.

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Amlinellodd y Cadeirydd y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai dau o'r ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan y ddau ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau. Yn dilyn trafodaeth -

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi Mr J. Jones yn Bennaeth Adfywio.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**